# Ysgol Baladeulyn

Cynnig i gau Ysgol Baladeulyn ar 31 Rhagfyr 2026 a chynnig lle i'r dysgwyr yn Ysgol Talysarn o 1 Ionawr 2027.

**Dogfen Ymgynghori Plant a Phobl Ifanc**

10 Rhagfyr 2025 - 28 Ionawr 2026

# Cyflwyniad

Mae Cyngor Gwynedd yn ystyried cau Ysgol Baladeulyn a chynnig lle i ddysgwyr yn Ysgol Talysarn.

Y rheswm am hyn yw gan mai dim ond 8 o blant sydd yn yr ysgol.

Mae 2 plentyn yn y meithrin a 6 o blant llawn amser.

Rydym eisiau gwybod sut yr ydych yn teimlo am y cynlluniau ar gyfer Ysgol Baladeulyn ac Ysgol Talysarn.

Mae'r llyfryn yma yn ceisio egluro beth fyddai'r newid yma yn ei olygu i chi fel dysgwr.



# Beth yw pwrpas y newid?



Sicrhau trefn addysgol dda i'r dyfodol

Gwneud gwell defnydd o adnoddau

Rhoi cyfle i chi gael dysgu a chwarae gyda phlant eraill o'r un oed

Cael dosbarthiadau o faint addas

# Beth yw'r cynnig?

Yr opsiwn sy'n cael ei gynnig yn ardal Nantlle yw cau Ysgol Baladeulyn a chynnig lle i'r dysgwyr yn Ysgol Talysarn.

Cau Ysgol Baladeulyn

Symud y dysgwyr i Ysgol Talysarn



# Beth mae'r newid yma'n ei olygu?

**Os yw Cabinet y Cyngor yn penderfynu cau Ysgol Baladeulyn, byddai'n golygu…**

Yn lle mynd i Ysgol Baladeulyn, bydd dysgwyr Ysgol Baladeulyn yn cael cynnig symud i Ysgol Talysarn sydd o gwmpas 2.5 milltir i ffwrdd.

**Mae'r Cyngor yn teimlo bydd y cynnig yma yn cryfhau addysg y plant i'r dyfodol.**

**Bydd symud i ysgol arall yn golygu:**

- Cyfle i gwrdd a ffrindiau newydd i chwarae a nhw
- Mwy o blant yr un oed a chi
- Mwy o blant i helpu eu gilydd
- Mwy o athrawon
- Rhoi profiadau teg i bob plentyn
- Pan ddaw'n amser i fynd i'r ysgol Uwchradd, byddwch yn adnabod mwy o blant a fydd yn symud yno gyda chi.



# Camau

Cyfnod Ymgynghori Statudol
10 Rhagfyr 2025 – 28 Ionawr 2026

Cyfle i unrhyw un roi sylwadau ar y cynnig

Cabinet – Adrodd yn ôl i'r Cabinet gyda unrhyw sylwadau yr ydym wedi eu derbyn

Bydd Y Cabinet yn penderfynu os yw am fwrw mlaen gyda'r cynnig neu beidio

Os yw'r Cabinet am fwrw mlaen, dechrau 'Cyfnod Gwrthwynebu' am 28 diwrnod.

Bydd cyfle i chi, ac unrhyw un arall, wrthwynebu y cynnig yn ystod y cyfnod yma.

Yn dilyn y cyfnod gwrthwynebu, y Cabinet yn gwneud penderfyniad terfynol ar y cynnig

## Beth ydych chi'n feddwl o'r cynnig?

Cyn i Gyngor Gwynedd benderfynu ar y ffordd ymlaen, rydym eisiau clywed eich barn chi am y cynnig i gau Ysgol Baladeulyn a chynnig lle i'r plant yn Ysgol Talysarn.

## Sut ydych chi yn cael ymateb?

Mae croeso i unrhyw un anfon sylwadau at y Cyngor i fynegi barn neu gwblhau holiadur.

Mae angen i'r Cyngor dderbyn eich sylwadau erbyn 28 Ionawr 2026.

## Angen mwy o wybodaeth?

- Am fwy o wybodaeth, copi o'r holiadur, a'r ddogfen ymgynghori, ewch ar safle wê'r Cyngor, sef: www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg
- Gallwch gysylltu â'r Cyngor drwy e-bostio: Moderneiddioaddysg@gwynedd.llyw.cymru
- Gallwch anfon llythyr/sylwadau/holiadur drwy'r post neu e-bost erbyn **28 Ionawr 2026** at:

  Swyddfa Moderneiddio Addysg,
  Pencadlys Cyngor Gwynedd,
  Caernarfon,
  Gwynedd,
  LL55 1SE